

Life in the UK 2024

Cymru



Creu Mynegai Bywyd yn y DU

Mae mynegai llesiant Bywyd yn y DU Carnegie UK yn mesur llesiant cyfunol ar draws y DU. Mae'n seiliedig ar beth mae pobl yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ei ddweud wrthym am eu bywydau. Diben y mynegai hwn yw helpu llywodraethau ar draws y DU i ganolbwyntio eu sylw ar y pethau sy'n wirioneddol bwysig i bobl, ac i'n helpu i ddeall a ydym ar y cyd yn byw'n well neu'n waeth dros amser. Bydd y mynegai hefyd yn helpu i nodi lle mae cynnydd yn cael ei wneud a'r meysydd yn ein bywydau lle mae angen ymyrraeth polisi.

Casglwyd y dystiolaeth ar gyfer mynegai 2024 drwy arolwg 26 cwestiwn o 6,774 o ymatebwyr drwy ddefnyddio [Ipsos' KnowledgePanel](#), arolwg tebygolrwydd ar hap gyda detholiad yn seiliedig ar sampl ar hap o aelwydydd y DU. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 9 a 15 Mai 2024, cyn i Etholiad Cyffredinol 2024 gael ei gyhoeddi.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau yn seiliedig ar y 531 o ymatebwyr sy'n byw yng Nghymru. Mae'r sgôr mynegai llesiant cyfunol cyffredinol a'r sgorau meysydd llesiant â gwerth rhwng 0 a 100.

- Cafodd y sgorau llesiant cyfunol, y sgorau meysydd a'r cwestiynau unigol eu dadansoddi i gymharu agweddau ar fywyd ar gyfer gwahanol fathau o bobl a gwahanol rannau o'r DU.
- Defnyddiwyd dadansoddiad o'r ffactorau i greu'r sgorau mynegai, a defnyddiwyd dadansoddiad atchweliad i helpu i ddeall pa nodweddion demograffig sydd fwyaf cysylltiedig â llesiant cyfunol ar y cyfan, ac â llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a democrataidd yn benodol. Rydym wedi defnyddio'r dadansoddiad hwn i strwythuro'r drafodaeth o nodweddion demograffig yn effeithio ar lesiant drwy gydol yr adroddiad hwn.

Mae Carnegie UK ac Ipsos wedi dylunio, datblygu a dadansoddi mynegai Bywyd yn y DU mewn partneriaeth. Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i greu'r mynegai a'r adroddiad technegol llawn ar gael [yma](#).

Mae Carnegie UK wedi ymrwymo i ddilyn egwyddorion y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#) wrth gynhyrchu ein mynegai Bywyd yn y DU. Rydym yn amlinellu sut rydym yn cadw at yr egwyddorion hyn yn ein [Datganiad Gwirfoddol o Gydymffurfiaeth](#).

Mae Carnegie UK yn gweithio i roi llesiant wrth wraidd gwneud penderfyniadau. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg annibynnol ac awdurdodol o lesiant cyfunol yn y Cymru 2024. Rydym yn gobeithio y bydd yn cyflwyno'r achos dros fesurau gwell o gynnydd cymdeithasol ac yn amlygu ble mae angen ymyrraeth polisi ar frys.

Cynnwys

Cyflwyniad: Bywyd yn y DU – Cymru 2024	4
Llesiant Cyfunol yng Nghymru yn 2024	5
Llesiant Cymdeithasol yng Nghymru yn 2024	8
Llesiant Economaidd yng Nghymru yn 2024	12
Llesiant Amgylcheddol yng Nghymru yn 2024	16
Llesiant Democrataidd yng Nghymru yn 2024	20
Crynodeb o Argymhellion Polisi	24
Cyfeirnodau	27
Atodiad	29
Diolchiadau	30



Cyflwyniad: Bywyd yn y DU – Cymru 2024

Mae mynegai Bywyd yn y DU bellach yn darparu dwy flynedd o dystiolaeth gadarn am sut beth yw bywyd i bobl yng Nghymru. Allan o sgôr bosibl o 100, dim ond 62 oedd llesiant cyfunol Cymru yn 2024. Nid yw'r sgôr hon wedi newid ers i ni gyhoeddi'r mynegai hwn am y tro cyntaf yn 2023¹. **Mae canfyddiadau'r mynegai eleni yn dweud wrthym fod llesiant cyfunol pobl yng Nghymru yn aros yr un peth, yn debyg iawn i weddill y DU.** Mae'r stasis hwn mewn safonau byw yn cael ei achosi gan anghydraddoldeb parhaus a chadarn ar draws y pedwar maes craidd, sef llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a democrataidd.

Yn ystod y flwyddyn arwyddocaol hon i ddemocratiaeth, sy'n nodi chwarter canrif ers sefydlu'r Senedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt), yn ogystal ag etholiad cyffredinol yn y DU, mae'n destun pryder unwaith eto bod y sgorau isaf yn ymwneud â llesiant democrataidd. Mae gan Gymru sgôr llesiant democrataidd o 39 yn unig. Mae'r ffigur hwn i'w briodoli'n bennaf â lefelau ymddiriedaeth yn gostwng mewn aelodau Senedd ac aelodau seneddol, ac ymdeimlad cynyddol bod pobl yn teimlo na allant ddylanwadu ar benderfyniadau yng Nghymru ac ar draws y DU. **Ym mron pob maes a fesurwyd gennym, anghydraddoldeb incwm yw'r un ysgogydd mwyaf o lesiant isel yng Nghymru.** Mae ein data hefyd yn pwysleisio effaith ffactorau megis oedran ac anabledd ar sgorau llesiant pobl.

Ers 2015, mae Cymru wedi bod ar flaen y gad yn fyd-eang o ran deddfwriaeth a ffyrdd o lywodraethu sy'n canolbwyntio ar gyflawni llesiant cyfunol a datblygu cynaliadwy. Mae wedi bod yn fwy uchelgeisiol gyda'r agenda hon na chenedloedd eraill yn y DU, gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)² yn sicrhau bod gan gyrrff cyhoeddus ddyletswydd gyfreithiol i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau. Mae'r dull hwn yn weladwy yn rhai o'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu. Er enghraifft, mae'r Rhaglen Lywodraethu³ yn nodi ymrwymïadau cyflawni pum mlynedd Llywodraeth Cymru wedi'u strwythuro o amgylch deg amcan llesiant.

Fodd bynnag, mae integreiddio effeithiol a chreu polisiau cydgysylltiedig gyda phwyslais ar sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion yn parhau i fod yn anodd. **Mae'r dystiolaeth ym mynegai Bywyd yn y DU 2024 ar gyfer Cymru yn dangos bod cynnydd wedi arafu a bod angen ffocws gwirioneddol ar y Ddeddf ac ar weithredu'r ffyrdd statudol o weithio erbyn hyn.** Er gwaethaf yr heriau niferus sy'n wynebu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru, mae yna le i obeithio. **Mae gan Gymru rai o'r ddeddfwriaeth fwyaf blaengar sy'n canolbwyntio ar y dyfodol yn y byd** Mae angen arweinyddiaeth uchelgeisiol yn awr ar lefel leol a chenedlaethol i gefnogi cyrrff cyhoeddus i feddwl a gweithredu yn y tymor hwy⁴. Mae Llywodraeth newydd y DU wedi datgan ei hymrwymiad i gryfhau ei gwaith gyda gweinidogion Cymru. Mae hefyd wedi amlinellu ei huchelgeisiau ar gyfer llywodraeth yn y DU sy'n cael ei harwain gan genhadaeth, lle mae modd dysgu o ddull Cymru.

Yn Carnegie UK rydym wedi gweithio ers dros 100 mlynedd i helpu i wella llesiant pobl ar draws y DU ac Iwerddon. Rydym yn credu yng ngrym polisi cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella bywydau pobl. Rydym yn gobeithio y gall yr adroddiad hwn roi ysbrydoliaeth a syniadau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru wrth i ni barhau â'n hymdrechion i sicrhau y gall pob un ohonom fyw'n dda gyda'n gilydd yn awr ac yn y dyfodol.

Sarah Davidson

Prif Swyddog Gweithredo Carnegie UK



Llesiant Cyfunol yng Nghymru yn 2024


Fel darlun cyffredinol y DU, mae stori bywyd yng Nghymru yn 2024 yn un o lesiant sy'n ddisymud⁵.

Mae Cymru yn cael ei hystyried yn arloeswr o ran ymagwedd llesiant tuag at lywodraethu. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁶ sydd ar flaen y gad yn fyd-eang, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau o ymdrin â pholisi cyhoeddus. Er gwaethaf hyn, mae tystiolaeth ym mynegai Bywyd yn y DU 2024 yn nodi nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud a bod angen ffocws bellach ar weithredu'r Ddeddf. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson ag adroddiadau blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru⁷ a Llywodraeth Cymru⁸.

Mae Cymru tipyn bach yn uwch na Lloegr o ran llesiant cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n amlwg fel llawer o bobl ar draws y DU, ond yn enwedig y rheiny yn y cenhedloedd datganoledig eraill, bod pobl yng Nghymru yn profi dieithrio democrataidd ac yn teimlo na allant ddylanwadu ar benderfyniadau ar benderfyniadau yn y DU, yn ogystal â'r penderfyniadau a wneir am eu bywydau yn agosach at adref yng Nghymru.

Trosolwg o'r sgorau

Y sgôr gyffredinol ar gyfer llesiant cyfunol yng Nghymru yn 2024 yw **62** allan o 100 posibl.





Deall yr hyn sy'n dylanwadu ar lesiant cyfunol yng Nghymru

Mae profiadau pobl o fywyd yng Nghymru yn amrywio'n sylweddol yn unol ag ystod o ffactorau pwysig, gan bwysleisio realiti anghydraddoldeb rhwng pobl ac o fewn cymunedau.

Mae'r pum ffactor canlynol yn arbennig o arwyddocaol o ran rhagweld sgôr lesiant cyfunol is neu uwch ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru >

- Mae incwm aelwyd** wedi'i gysylltu'n gryf â lesiant cyfunol yn gyffredinol yng Nghymru, yn enwedig i enillwyr is. Mae gan bobl ag incwm aelwyd blynyddol uwch o £52,000 a mwy sgôr lesiant cyfunol o 66, deg pwynt yn uwch na phobl sy'n ennill hyd at £26,000 (56).
- Mae gan bobl sy'n byw ag **anabledd** yng Nghymru sgôr lesiant cyfunol o 54 ar gyfartaledd, sy'n ddeg pwynt yn is na'r bobl heb anabledd (64).
- Mae gan bobl rhwng 16 a 34** oed sgôr lesiant cyfunol o 59. Mae hyn yn saith pwynt yn is na sgôr lesiant cyfunol pobl 55 oed a hŷn (66).
- Byw yn y wlad neu'r dref** - Mae gan bobl sy'n mewn ardaloedd trefol yng Nghymru sgôr lesiant cyfunol o 60, sy'n chwe phwynt yn is na phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (66).

* Dylid nodi bod sampl fach ar gyfer yr is-grŵp 16-34 oed (64 o ymatebwyr).




Llesiant Cymdeithasol yng Nghymru yn 2024

Mae gan bob un ohonom y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom i ffynnu.

74

100



Mae gan Gymru sgôr o 74 allan o 100 pobl ar gyfer llesiant cymdeithasol. Mae hyn yr un fath a'r sgôr a gyhoeddwyd yn 2023.

Mae llesiant cymdeithasol yn ymwneud â phawb yn gallu cyflawni eu potensial a chyfrannu at gymdeithas oherwydd bod eu hanghenion sylfaenol wedi'u diwallu. Mae ein hanghenion sylfaenol yn cynnwys cael mynediad at ofal iechyd a chymdeithasol, addysg, tai, trafnidiaeth, digidol a gofal plant.

Er mwyn nodi tueddiadau o ran llesiant cymdeithasol ar draws Cymru, gwnaethom ofyn cwestiynau am fynediad at wasanaethau cyhoeddus, perthnasoedd cymunedol, diogelwch a chydlyniant cymunedol, ac iechyd ac iechyd meddwl hunangofnodedig.

Y grŵp sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau uchel o lesiant cymdeithasol yng Nghymru yn 2024 yw >

- **Pobl dros 55 oed**, sydd â sgôr llesiant cymdeithasol o 78. Mae hyn yn saith pwynt yn uwch na sgôr llesiant cymdeithasol pobl rhwng 16 a 34 oed (71), ac yn chwe phwynt yn uwch na phobl 35-54 oed (72).

Y grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau isel o lesiant cymdeithasol yng Nghymru yn 2024 yw >


- **Pobl anabl** - Mae gan bobl sy'n byw ag anabledd yng Nghymru sgôr llesiant cymdeithasol o 64 ar gyfartaledd, sy'n 14 pwynt yn is na sgôr pobl heb anabledd (78).
- **Pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig** - Mae lle mae pobl yn byw ac amddifad yr ardal yn cael rhywfaint o effaith ar lesiant cymdeithasol yng Nghymru. Mae gan bobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru (IMD1*) sgôr llesiant cymdeithasol o 67 ar gyfartaledd, sy'n 12 pwynt yn is na sgôr y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf cefnog (IMD5) (79).

Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â sgorau mynegai Cymru Bywyd yn y DU 2023.

Nid oedd sgorau llesiant cymdeithasol yn gysylltiedig yn sylweddol â rhywedd, incwm, ethnigrwydd, nifer o blant neu drefoldeb.

* Mae'r Mynegai Amddifadedd Lluosog (IMD) yn mesur amddifadedd cymharol ledled y DU. Mae ardaloedd yn cael eu rhestru o'r ardal fwyaf difreintiedig (rheng 1) i'r ardal leiaf difreintiedig (rheng 5).

Pobl sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau uchel ac isel o les cymdeithasol yng Nghymru



Llesiant cymdeithasol - ystadegau arwyddocaol

- Mae **39%** wedi profi gwahaniaethu dros y flwyddyn diwethaf.
- Mae **21%** yn teimlo nad ydynt yn ddiogel yn cerdded ar eu pennau eu hunain yn eu cymdogaeth ar ôl iddi dywyllu.
- Nid oes gan **9%** unrhyw un i ddibynnu arno yn eu cymdogaeth. Mae hyn yn welliant chwe phwynt ar y sgôr a gyhoeddwyd yn 2023 (15%).
- Mae gan **7%** iechyd meddwl gwael neu wael iawn. Mae hyn yn welliant pum pwynt ar y sgôr a gyhoeddwyd yn 2023 (12%).



Sylwadau Carnegie UK

Mae Cymru tipyn bach yn uwch na Lloegr o ran llesiant cymdeithasol. Mae'r Rhaglen Lywodraethu, sy'n mabwysiadu dull tymor hwy na chenhedloedd eraill y DU, yn pennu ymrwymadau'r Llywodraeth dros gyfnod y bum mlynedd. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar ddarparu gofal iechyd effeithiol, o ansawdd uchel a chynaliadwy. Mae hefyd yn blaenoriaethu datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed⁹. Yn 2024, adroddodd Cymru gyfres siomedig o ffigurau perfformiad y GIG, a oedd yn cynnwys y lefelau uchaf erioed o amseroedd aros ar gyfer triniaeth ysbyty¹⁰. Mae hyn yn dangos pam mae angen cyflawni'r blaenoriaethau llywodraethu hyn ar frys.

Mae ein perthnasoedd, ac yn fwy penodol ansawdd ein perthnasoedd - rhwng unigolion a chymunedau ac ar draws cenedlaethau - yn cael effaith sylweddol ar lesiant cyfunol. Mae cysylltiadau personol yn cyfrannu at ystod o wahanol ganlyniadau llesiant, megis ym maes addysg, cyflogaeth ac iechyd. Mae dulliau ataliol fel rhagnodi cymdeithasol yn cydnabod effaith y perthnasoedd hyn ar lesiant ac yn cysylltu pobl â sefydliadau gwirfoddol yn eu cymuned¹¹.

Mae'n galonogol gweld bod nifer y bobl sy'n adrodd nad oed ganddynt rywun yn eu cymdogaeth i ddibynnu arnynt wedi gostwng ers 2023. Yn yr un modd, mae llai o bobl yn adrodd am iechyd meddwl gwael. Mae'n bosibl bod hyn yn dangos cynnydd calonogol tuag at yr ymrwymadau a wnaed yn Rhaglen Lywodraethu 2023 i flaenoriaethu buddsoddiad mewn iechyd meddwl a chyflwyno rhagnodi cymdeithasol i fynd i'r afael ag ynysu.

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer rhagnodi cymdeithasol a oedd yn cydnabod absenoldeb dull safonol a chyson¹². Yn sgorau mynegai Bywyd yn y DU: Cymru yn y dyfodol, byddwn yn gweld os bydd gweithredu'r fframwaith fel rhan o flaenoriaethau ehangach y Llywodraeth o ran iechyd a darparu gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed yn cael effaith gadarnhaol ar sgorau llesiant cymdeithasol.

Er mwyn cymryd rhan mewn cymdeithas, rhaid i bobl gael cyfleoedd a rhwydweithiau hygyrch. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r grwpiau mwy agored i niwed y mae eu llesiant mewn perygl oherwydd ynysu neu arwahanu¹³. **Mae'n destun pryder, felly, gweld bod 39% o bobl yng Nghymru wedi profi gwahaniaethu dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig gan mai un o amcanion llesiant Cymru yw dathlu amrywiaeth a symud i gael gwared ag anghydraddoldeb ar bob ffurf.** Rhaid mynd i'r afael â mynd ar frys.




Llesiant Economaidd yng Nghymru yn 2024

Mae gan bob un ohonom safon byw sylfaenol dda.

70

100



Mae gan Gymru sgôr o 70 allan o 100 posibl ar gyfer llesiant economaidd. Mae hyn yn debyg i'r sgôr a gyhoeddwyd yn 2023.

Ystyr llesiant economaidd yw bod gan bawb isafswm safon byw'n ddigonol a gallant ddelio â thaliadau annisgwyl. Mae hyn yn cynnwys mynediad at incwm digonol, fforddiadwyedd, gwytnwch ariannol, cyfleoedd gwaith a sgiliau.

Er mwyn pennu tueddiadau o ran llesiant economaidd ar draws Cymru, gwnaethom ofyn cwestiynau am sgiliau a'r swyddi sydd ar gael, a fforddiadwyedd eitemau hanfodol fel bwyd a thanwydd.


Y grŵp sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau uchel o lesiant economaidd yng Nghymru yn 2024 yw >

- **Pobl ag incwm aelwyd uchel** - Fel yn y meysydd llesiant eraill, mae incwm aelwyd wedi'i gysylltu'n gryf â llesiant economaidd yng Nghymru. Mae gan y rhai sydd ag incwm aelwyd blynyddol o rhwng £52,000 a £99,999 sgôr llesiant economaidd o 81, sy'n saith pwynt yn uwch na'r rhai sydd ag incwm aelwyd is (74 - £26,000 i £51,999) ac yn 23 pwynt yn uwch na'r rhai sy'n ennill llai na £26,000 (58).

Y grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau isel o lesiant economaidd yng Nghymru yn 2024 yw >

- **Pobl o dan 55 oed**, sydd â llesiant economaidd is o gymharu â phobl 55 oed a hŷn. Mae gan bobl ifanc rhwng 16 a 34 oed sgôr llesiant economaidd o 69, ac mae gan bobl 35-54 sgôr llesiant economaidd o 64. Mae hyn yn cynrychioli bwlch o saith pwynt a deuddeg pwynt o gymharu â sgôr pobl 55 oed a hŷn (76).
- **Pobl anabl** - Mae gan bobl sy'n byw ag anabledd yng Nghymru sgôr llesiant economaidd o 59 ar gyfartaledd, sy'n 15 pwynt yn is na sgôr pobl heb anabledd (74).

Pobl sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau uchel ac isel o les economaidd yng Nghymru



Llesiant economaidd - ystadegau arwyddocaol

- Mae **34%** yn anfodlon ar y cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn eu hardal leol.
- Nid yw **32%** yn gallu fforddio cost annisgwyl o £850.
- Nid yw **23%** yn gallu fforddio mynd ar wyliau oddi cartref.
- Nid yw **13%** yn gallu fforddio cadw eu cartref yn ddigon cynnes.
- Nid yw **11%** yn gallu fforddio cymdeithasu gyda ffrindiau neu deulu y tu allan i'r cartref unwaith y mis.
- Nid yw **8%** yn gallu fforddio digon o fwyd i'w haelwyd.
- Mae **7%** yn anfodlon neu'n anfodlon iawn ar eu haddysg a'u sgiliau.



Sylwadau Carnegie UK

Mae'r bylchau sylweddol mewn llesiant economaidd, yn seiliedig ar ffactorau megis oedran, anabledd a deiliadaeth tai, yn dangos graddfa'r anghydraddoldeb strwythurol yng Nghymru, sydd hefyd yn gyffredin ledled y DU¹⁴. Mae amddifad economaidd yn dyfnhau tlodi ac yn ehangu anghydraddoldeb, ac mae'n cael effaith ar sawl agwedd ar fywydau pobl¹⁵.

Mae cost tlodi yn mynd y tu hwn i'r caledi a brofir gan bobl sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Mae'n cael effaith hirdymor ar draws y gymdeithas, gan gynnwys ar yr economi drwy lai o gyflogaeth¹⁶, ac ar wasanaethau cyhoeddus, wrth i bobl fynd i'r afael yn barhaus â symptomau a chanlyniadau tlodi ar eu llesiant personol, fel iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael¹⁷.

Mae'n galonogol gweld ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol o fewn ei Rhaglen Lywodraethu bresennol. Mae tystiolaeth Bywyd yn y DU 2024 yn dangos pam mae cyflawni'r genhadaeth hon mor bwysig, yn enedig gan mai Cymru sydd â'r gyfradd anweithgarwch economaidd yn y DU¹⁸. Yn Carnegie UK, rydym yn gwybod bod gwaith teg a chynhyrchiant yn bwysig gan eu bod ymysg prif benderfynyddion safonau byw¹⁹.

Fodd bynnag, mae'r ffaith bod 34% o bobl yn anfodlon ar y cyfleoedd gwaith yn eu hardal leol yn sylweddol. Rhaid i ymdrechion i fynd i'r afael â phrinder sgiliau, megis drwy gyflwyno'r Warrant i Bobl Ifanc a sefydlwyd yn 2021, gyd-fynd â mwy o gyfleoedd gwaith ac argaeledd.

Yn Carnegie UK, rydym hefyd yn pryderu am effaith llesiant economaidd isel ar blant a phobl ifanc. Mae bron un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi²⁰.

Dylid canmol Llywodraeth Cymru am gwblhau ei chynllun i gyflwyno prydau ysgol am ddim i blant ysgolion cynradd yn 2024. Mae hyn yn rhan o'i hymrwymiad i drechu tlodi a gwella iechyd a chyrhaeddiad addysgol - enghraifft o wasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i gyflawni newid hirdymor ar draws nifer o ganlyniadau llesiant.

Yn 2024 cyhoeddwyd Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yr oedd disgwyl mawr amdani, sy'n canolbwyntio'n briodol ar roi mwy o arian ym mhocedi teuluoedd. **Fodd bynnag, nid yw'n cyflawni'r effaith bosibl o bolisiau sydd â'r nod o gynyddu incwm aelwydydd** uoedd. Yn sgorau mynegai Bywyd yn y DU yn y dyfodol, byddwn yn gweld a yw'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol²¹, a ddaeth i rym yng Nghymru eleni, ynghyd â blaenoriaeth Llywodraeth y DU i 'wneud i waith dalu' drwy ddarparu rhagor o sicrwydd gwaith, gwahardd contractau dim oriau ecsbloetiol a chyflawni cyflog byw gwirioneddol, yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r bwllch hwn ac yn cael effaith gadarnhaol ar sgorau llesiant yn y maes hwn.




Llesiant amgylcheddol yn 2024

Rydym i gyd yn byw o fewn adnoddau naturiol y blaned.

64

100



Mae gan Gymru sgôr o 64 allan o 100 posibl ar gyfer llesiant amgylcheddol. Mae hyn yn debyg i'r sgôr a gyhoeddwyd yn 2023 (66).

Ystyr llesiant amgylcheddol yw bod gan bawb fynediad at lecynnau gwyrdd a glas, a'n bod ni ar y cyd yn byw yn unol ag adnoddau naturiol y blaned, gan ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Er mwyn pennu tueddiadau mewn llesiant amgylcheddol ar draws y DU, gwnaethom ofyn cwestiynau am fynediad at ac ansawdd parciau lleol, afonydd a llecynnau gwyrdd a glas eraill. Gwnaethom hefyd ofyn am lefelau boddhad o ran yr ymdrechion i warchod yr amgylchedd.

Y grŵp sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau uchel o lesiant amgylcheddol yng Nghymru yn 2024 yw >

- **Pobl dros 55 oed** - Mae oedran uwch yn gysylltiedig yn gadarnhaol â llesiant amgylcheddol. Mae gan y rhai dros 55 oed sgôr llesiant amgylcheddol o 69. Mae hyn yn 10 pwynt yn uwch na sgôr llesiant amgylcheddol pobl 16 i 34 oed (59) ac yn saith pwynt yn uwch na sgôr llesiant amgylcheddol pobl 35-54 oed (62).


Y grŵp sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau isel o lesiant amgylcheddol yng Nghymru yn 2024 yw >

- **Pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol**, sydd â sgôr llesiant amgylcheddol o 61. Mae hyn yn fwlch o naw pwynt o gymharu â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (70).

Nid oedd yr un o'r nodweddion demograffig eraill, gan gynnwys rhywedd, incwm, ethnigrwydd, anabledd, nifer o blant ac amddifadedd lleol, wedi'u cysylltu'n sylweddol â llesiant amgylcheddol.

Dylid nodi bod newidynnau demograffig yn esbonio tua chwarter yr amrywiad mewn sgorau llesiant amgylcheddol. Mae hyn yn dangos bod ffactorau heblaw nodweddion demograffig yn dylanwadu'n gryfach ar lesiant amgylcheddol.

People most likely to experience high and low levels of environmental wellbeing in Wales



Llesiant amgylcheddol - ystadegau arwyddocaol

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn profi problemau gyda sbwriel (**83%**), sŵn (**59%**) ac ansawdd aer (**43%**) yn eu cymdogaeth leol.
- Mae **37%** yn anfodlon â'r ymdrechion presennol i warchod yr amgylchedd.
- Mae **13%** yn anfodlon ag ansawdd y llecynnau gwyrdd neu agored sydd agosaf at eu cartref.



Sylwadau Carnegie UK

Mae ymrwymiad Cymru i'r hinsawdd wedi'i adlewyrchu yn nau o'r amcanion llesiant sydd wedi'u hymgorffori yn y gyfraith yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Cymru Lewyrchus a Chymru Gydnerth. Pwysleisir yr uchelgeisiau hyn ymhellach yn yr amcanion llesiant a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu:

- Adeiladu economi gryfach, gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio, ac
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

Mae'n destun pryder, felly, nad yw sgôr llesiant amgylcheddol Cymru wedi gwella ers 2024.

Mae'r canfyddiad hwn yn gyson ag adroddiad cynnydd 2024 y Pwyllgor Newid Hinsawdd²² a ganfu fod Llywodraeth Cymru yn methu â lliniaru allyriadau hinsawdd a pharatoi cymunedau yng Nghymru ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd sydd ar ddod. **Mae'r angen i weithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd bellach yn fwy bryd nag erioed.** Mae lefelau anfodlonrwydd yn adroddwyd amdanynt â'r ymdrechion i warchod yr amgylchedd (37%) yn awgrymu bod cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru yn credu nad oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Yn Carnegie UK rydym yn gwybod bod amlygiad anghymesur i lygryddion a swm, a bod mynediad annigonol i lecynnau gwyrdd a glas megis parciau, coetiroedd ac afonydd - anghyfiawnder amgylcheddol - yn fygythiad i lesiant cyfunol. Mae'n cryfhau ymhellach anghydraddoldeb rhwng pobl a chymunedau yn y DU.

Yn 2025, Cymru oedd y wlad yn yr ail safle yn y byd ar gyfer cyfraddau ailgylchu²³. Mae hyn yn dangos gallu Cymru, fel cenedl fach, i weithredu'n gyflym ac yn bendant ar gwrs gweithredu os yw'r nod yn glir a chytunir ar y modd i'w gyflawni. Ers i'r mynegai gael ei gyhoeddi yn 2023, mae cam cyntaf Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 hefyd wedi dod i rym, ac mae wyth cynnyrch plastig untro bellach naill ai wedi'u gwahardd neu eu cyfyngu²⁴.

Fodd bynnag, mae'r sgorau mynegai yn awgrymu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ymhellach fyth i symud o rethreg i realiti. Bydd Cynllun Ynni Cenedlaethol Cymru - a ddisgwyllir erbyn diwedd 2024 - yn gosod y newidiadau i'r system ynni sydd eu hangen er mwyn cyflawni Sero Net erbyn 2050, tra'n darparu system ynni ddiogel a fforddiadwy yng Nghymru²⁵. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd hyn yn galluogi Cymru i gyflymu'r broses o drosglwyddo i system ynni Sero Net. Os bydd ei weithredu'n llwyddiannus, byddem yn disgwyl gweld y sgôr llesiant amgylcheddol yn dechrau gwella yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, rhaid i hyn gyd-fynd â chamau i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r camau y mae Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r her hinsawdd.



Llesiant democrataidd yn 2024

Mae gan bob un ohonom lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnom.

39

100



Mae gan Gymru sgôr o 39 allan o 100 pobl ar gyfer llesiant democrataidd. Mae hyn yr un fath a'r sgôr a gyhoeddwyd yn 2023.

Mae llesiant democrataidd yn ymwneud â phawb yn cael llais mewn penderfyniadau a wneir sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn golygu cael arweinwyr lleol a chenedlaethol sy'n cefnogi cyfranogiad, yn meithrin ymddiriedaeth ac yn annog amrywiaeth.

Er mwyn deall llesiant democrataidd yn y DU yn 2025, gwnaethom ofyn cwestiynau am lefelau ymddiriedaeth mewn llywodraeth(au) lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, canfyddiadau o allu personol i ddylanwadu ar benderfyniadau, a phrofiadau o wahaniaethu.

Dylid nodi, yn wahanol i'r meysydd cymdeithasol ac economaidd, bod llai nag un rhan o bump o'r amrywiad mewn llesiant democrataidd yn gysylltiedig â nodweddion demograffig. Mae hyn yn dangos bod ffactorau heblaw nodweddion demograffig yn dylanwadu'n gryf ar lesiant democrataidd.

Dylanwad

Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn teimlo na allant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar y DU, Cymru, neu eu hardal leol (74%, 66% a 55% yn y drefn honno). Mae cyfran y bobl yng Nghymru sy'n dweud na allant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar y DU yn debyg i Loegr. Roedd yr Alban a Gogledd Iwerddon yn uwch (74% yng Nghymru o gymharu â 72% yn Lloegr, 77% yn yr Alban a 78% yng Ngogledd Iwerddon).

Ymddiriedaeth yn y llywodraeth

Cyfran y bobl yng Nghymru nad ydynt yn ymddiried yn Llywodraeth y DU yw 56% sy'n debyg i'r sgôr ar gyfer gweddill y DU yn gyffredinol.

Mae ymddiriedaeth mewn cynghorau lleol yn debyg i'r DU yn gyffredinol, gyda 31% o bobl yng Nghymru yn nodi diffyg ymddiriedaeth mewn cynghorau lleol o gymharu â 28% yn y DU.

Llesiant democrataidd - ystadegau arwyddocaol

- Mae **74%** yn anghytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar y DU gyfan.
- Mae **66%** yn anghytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru.
- Mae gan **56%** lefelau isel o ymddiriedaeth yn Llywodraeth y DU.
- Mae **55%** yn anghytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.
- Mae gan **51%** lefelau isel o ymddiriedaeth mewn ASau.
- Mae gan **41%** lefelau isel o ymddiriedaeth mewn aelodau o'r Senedd.
- Mae gan **39%** lefelau isel o ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru.
- Mae gan **31%** lefelau isel o ymddiriedaeth mewn cynghorau lleol.



Sylwadau Carnegie UK

Ni ellir 'gwneud llesiant i' bobl: rhaid iddo gael ei wneud ganddynt a chyda nhw. Mae rhoi llais a dewis i bobl, gwella tryloywder, a hyrwyddo deialog rhwng pobl, sectorau a chymunedau yn alluogwyr dylanwadol llesiant cymunedol.

Mae'n drawiadol felly, o gymharu â'r meysydd eraill (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol), **ei bod yn anodd gweld ymrwymiad cryf gan Lywodraeth Cymru i wella democratiaeth o fewn y cynigion polisi a amlinellir yn Rhaglen Lywodraethu 2021**, heblaw cynnal sgwrs genedlaethol am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru²⁶. Mae 'Cynnwys' yn un o'r pum ffordd statudol o weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Mae cyfraith newydd y Senedd a fydd yn cael gwared â rhwystrau i ymgysylltu democrataidd drwy gofrestru pobl yn awtomatig ar y gofrestr etholiadol yn galonogol, ond ar ei phen ei hun ni fydd yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â dieithrio²⁷.

Mae'r dystiolaeth ym mynegai Bywyd yn y DU yn dangos pam mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn fwy uchelgeisiol: mae'n destun pryder bod bron tri chwarter y bobl yng Nghymru (74%) yn teimlo na allant ddylanwadu ar benderfyniadau yn y DU. Yn yr un modd, mae dros hanner o Gymry (66%) yn anghytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru.

Mae 2024 yn nodi 25 mlynedd o ddatganoli, pan ddatganolwyd pwerau polisi sylweddol yn y DU i Gymru. Ers hynny, mae cynnydd pwysig wedi'i wneud. Mae'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru wedi cronni pwerau a dulliau polisi newydd yn gynyddol ac wedi arwain y wlad drwy gyfnodau heriol, megis yr achosion o glwy'r Traed a'r Genau a gafodd effaith ddinistriol a pharhaol ar y diwydiant ffermio a thwristiaeth yn 2001, a phandemig Covid -19 ugain mlynedd yn ddiweddarach²⁸.

Dros y blynyddoedd, mae'r Senedd wedi dangos y gall gyflawni pethau a gwneud pethau'n wahanol²⁹. Rhaid iddi bellach fabwysiadu'r dull hwn o wella ymddiriedaeth a chyfranogiad y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn y brif ffrwd.

Mae llywodraeth newydd yn y DU a nodi 25 mlynedd o ddatganoli yn cynnig amser i wneud cynnydd o ran codi ymwybyddiaeth o systemau, strwythurau a phrosesau ymgysylltu cyfranogol a thrafodol. Rhaid i hyn gyd-fynd â datblygu mecanweithiau i ymgorffori'r dulliau hyn wrth lunio polisiâu ac adeiladu diwylliant o ddemocratiaeth gyfranogol a thrafodol o fewn sefydliadau yng Nghymru.

Bydd y diwygiad disgwylid fel rhan o etholiadau Senedd 2026 yn cynnig eiliad o risg, yn ogystal â chyfle. Gyda system bleidleisio fwy cymesur a Senedd fwy mewn sefyllfa well i gyflawni ei swyddogaethau cynyddol, byddem yn gobeithio gweld y sgôr llesiant democrataidd yn gwella yn y blynyddoedd i ddod.

Yn Carnegie UK, rydym yn gwybod bod hyn yn bosibl – mae Cymru wedi arwain y ffordd wrth gynnal Sgyrsiau Cenedlaethol ar bynciau fel llesiant³⁰, ac yn fwyaf diweddar dyfodol cyfansoddiadol Cymru, a wnaeth nifer o argymhellion pwysig. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys yr angen i gryfhau'r capasiti ar gyfer arloesi democrataidd ac ymgysylltu cymunedol cynhwysol yng Nghymru. **Rhaid i Lywodraeth Cymru bellach gymryd camau sy'n mynd ymhellach na dim ond derbyn yr argymhellion, neu fel arall mae mewn perygl o fod yn symboleiddiol³¹.**

> Bywyd yn y DU: Cymru 2024 - Argymhellion Polisi

Dylid canmol Cymru am ei hymdrechion i roi llesiant wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae ei ddeddfwriaeth arloesol yn uchelgeisiol, ac er y bydd yn cymryd amser i weld yr effaith hirdymor yn dod i'r amlwg, mae'n amlwg bod gan Lywodraeth Cymru weledigaeth ar gyfer y wlad a'i bod yn defnyddio'r nodau llesiant i lywio a siapio penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ym mynegai Bywyd yn y DU 2024 yn dangos bod cynnydd wedi stopio am nawr. **Mae angen ffocws parhaus ar weithredu'r Ddeddf ac ar gyflawni'r ffyrdd statudol o weithio a nodir ynnddi yn awr i weld newid cynaliadwy.**

Yn sgorau mynegai Bywyd yn y DU: Cymru yn y dyfodol, byddwn yn gweld a yw'r cynlluniau a strategaethau gweithredu amrywiol, gan gynnwys y rhai ar ragnodi cymdeithasol, cyflawni Sero Net a mynd i'r afael â thlodi, yn cael eu deddfu'n ymarferol ac yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r heriau hyn. **Bydd arweinyddiaeth wleidyddol a gweinyddol gydlynol yn hanfodol, yn ogystal â darparu cefnogaeth ddigonol i ymgorffori cyrff cyhoeddus i feddwl a gweithredu yn y tymor hir.**

Mae'r sgorau yn yr adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth glir o ddemograffeg y bobl hynny sy'n cael eu gadael ar ôl yng Nghymru heddiw. Ar y grwpiau hyn y dylai llywodraethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y DU fod yn canolbwyntio eu sylw os ydynt am wneud cynnydd ar uchelgais Llywodraeth y DU o 'gychwyn degawd o adnewyddu cenedlaethol'³² a gwneud cynnydd ar yr heriau mawr sy'n wynebu Cymru o ran dyfodol yr economi a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn Carnegie UK, credwn fod tri maes cyfle allweddol y dylai Cymru fanteisio arnynt er mwyn datblygu ymhellach ddull effeithiol sy'n seiliedig ar ganlyniadau o fynd i'r afael â'r materion hyn. Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Ffocysu ei hymdrechion ar adfer democratiaeth – y genhadaeth goll.
- Grymuso cyrff cyhoeddus i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus.
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth llesiant yn ei olygu i ddinasyddion.



Atgyweirio democratiaeth – y genhadaeth goll

Mae'n anodd gweld ymrwymiad cryf i wella democratiaeth o fewn y cynigion polisi a amlinellwyd yn Rhaglen Lywodraethu 2021 heblaw cynnal sgwrs genedlaethol am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru. Ers 2021, mae iechyd democratiaeth yng Nghymru ac ar draws y DU wedi bod yn dirywio'n barhaus. Mae tystiolaeth mynegai Bywyd yn y DU: Cymru 2024 yn tynnu sylw at pam y mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn ar frys.

Mae 2024 yn flwyddyn bwysig i ddemocratiaeth a chyflawni. Mae llywodraeth newydd y DU, Prif Weinidog Cymru, a 25 mlynedd ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnig cyfle i wneud cynnydd o ran codi ymwybyddiaeth o systemau, strwythurau a phrosesau ymgysylltu cyfranogol a thrafodol. **Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ymhellach wrth gyflawni'r ffyrdd statudol o weithio, sy'n cynnwys cyfranogiad dinasyddion.** Rhaid i hyn gyd-fynd â datblygu mecanweithiau i ymgorffori'r dulliau hyn wrth lunio polisiau ac adeiladu diwylliant o ddemocratiaeth gyfranogol o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae'n hanfodol bod pawb sydd mewn grym yn gweithio i feithrin ymddiriedaeth gyda phobl y DU: bydd methu â mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anafdonrwydd yn bygwth sylfeini democratiaeth ymhellach. Mae angen agenda feiddgar arnom i ail-ymgysylltu â phobl yn ein democratiaeth ac ailfeithrin ymddiriedaeth yn y rhai yr ydym yn eu dewis i'n cynrychioli.



Grymuso cyrff cyhoeddus i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn llwyddiannus

Mae angen cryn dipyn o gymorth i arfogi pobl sy'n gweithio mewn cyrff cyhoeddus â'r sgiliau i feddwl yn y tymor hir. Nid yw blaenoriaethau'r dyfodol, dadansoddi tueddiadau'r dyfodol a datblygu cynlluniau 25 mlynedd yn sgiliau a addysgir yn gyffredinol nac sy'n ofynnol yn draddodiadol yn y sector cyhoeddus. Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – a sefydlwyd fel rhan o ddeddfwriaeth llesiant 2015 - wedi bod yn allweddol wrth feithrin cydweithrediad rhwng gwahanol gyrff cyhoeddus a gyrru ffocws ar atal mewn polisi cyhoeddus. Mae hwn yn ased y dylai cyrff cyhoeddus barhau i'w ddefnyddio a cheisio arweiniad ganddo.

Yn rhy aml, caiff deddfwriaeth sy'n gosod dyletswyddau newydd ar y sector cyhoeddus ei phasio heb ddarparu unrhyw gefnogaeth i'r hyfforddiant, y datblygiad a'r newid diwylliannol tymor hwy sy'n ofynnol i'w weithredu'n iawn. **Mewn blwyddyn lle mae cynlluniau a strategaethau gweithredu amrywiol wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi, ni ddylai Llywodraeth Cymru anwybyddu pwysigrwydd sicrhau bod gan weithwyr y sector cyhoeddus y sgiliau a'r wybodaeth i ymgorffori dull ataliol yn ymarferol.** Rydym yn argymhell bod cyrff cyhoeddus yn rhoi cynlluniau ar waith i symud trwy Fatrics Aeddfedrwydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru³³, gan ddefnyddio'r Gwiriwr Cynnydd i fonitro cynnydd, a chyhoeddi'r cynnydd hwn yn flynyddol.



Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r hyn y mae deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei olygu iddynt

Er bod Cymru wedi bod yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni polisiau sydd wedi'u cynllunio i wella llesiant amgylcheddol, mae'n nodedig nad yw'r sgôr llesiant amgylcheddol gyffredinol wedi gwella.

Nid yw cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru yn credu bod Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. **Mae hyn yn dangos bod yn rhaid gwneud mwy i gyfathrebu cynnydd a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o agenda llesiant Cymru a sut y gallai ac y dylai effeithio ar eu bywydau.**

Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn feiddgar. Dylai adeiladu ar y camau amgylcheddol cadarnhaol y mae wedi'u cymryd hyd yn hyn a chyfleu hyn i ddinasyddion yn hyderus. Yn ogystal, rydym yn cefnogi argymhellion Grŵp Her Sero Net Cymru 2035 ac yn cynnig mai hwyluso sgwrs genedlaethol am yr argyfwng hinsawdd a natur mewn ffordd gyfannol yw'r cam hanfodol nesaf i ddod â holl ddinasyddion Cymru i mewn i ddeialog ynghylch creu dyfodol mwy diogel a llewyrchus ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru³⁴.



Llesiant cyfunol: trosolwg o'r ystadegau arwyddocaol



Llesiant cymdeithasol - ystadegau arwyddocaol

- Mae **39%** wedi profi gwahaniaethu dros y flwyddyn diwethaf.
- Mae **21%** yn teimlo nad ydynt yn ddiogel yn cerdded ar eu pennau eu hunain yn eu cymdogaeth ar ôl iddi dywyllu.
- Nid oes gan **9%** unrhyw un i ddibynnu arno yn eu cymdogaeth. Mae hyn yn welliant chwe phwynt ar y sgôr a gyhoeddwyd yn 2023 (15%).
- Mae gan **7%** iechyd meddwl gwael neu wael iawn. Mae hyn yn welliant pum pwynt ar y sgôr a gyhoeddwyd yn 2023 (12%).



Llesiant economaidd - ystadegau arwyddocaol

- Mae **34%** yn anfodlon â'r cyfleoedd gwaith yn eu hardal leol.
- Nid yw **32%** yn gallu fforddio cost annisgwyl o £850.
- Nid yw **23%** yn gallu fforddio mynd ar wyliau oddi cartref.
- Nid yw **13%** yn gallu fforddio cadw eu cartref yn ddigon cynnes.
- Nid yw **11%** yn gallu fforddio cymdeithasu gyda ffrindiau neu deulu y tu allan i'r cartref unwaith y mis.
- Nid yw **8%** yn gallu fforddio digon o fwyd i'w haelwyd.
- Mae **7%** yn anfodlon neu'n anfodlon iawn ar eu haddysg a'u sgiliau.



Llesiant amgylcheddol - ystadegau arwyddocaol

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn profi problemau gyda sbwriel (**83%**), sŵn (**59%**) ac ansawdd aer (**43%**) yn eu cymdogaeth leol.
- Mae **37%** yn anfodlon â'r ymdrechion presennol i warchod yr amgylchedd.
- Mae **13%** yn anfodlon ag ansawdd y llecynnau gwyrdd neu agored sydd agosaf at eu cartref.



Llesiant democrataidd - ystadegau arwyddocaol

- Mae **74%** yn anghytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar y DU gyfan.
- Mae **66%** yn anghytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru.
- Mae **55%** yn anghytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.
- Mae gan **51%** lefelau isel o ymddiriedaeth mewn ASau.
- Mae gan **56%** lefelau isel o ymddiriedaeth yn Llywodraeth y DU
- Mae gan **39%** lefelau isel o ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru.
- Mae gan **41%** lefelau isel o ymddiriedaeth mewn aelodau o'r Senedd.
- Mae gan **31%** lefelau isel o ymddiriedaeth mewn cynghorau lleol

Cyfeirnodau

- 1 Wallace a Baker (2023). Bywyd yn y DU Cymru 2023. Carnegie UK: Dunfermline.
- 2 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 3 Llywodraeth Cymru (2024). Rhaglen Lywodraethu. Ar gael drwy fynd i: <https://www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu>.
- 4 Howe (2023). A ddylai'r Alban sefydlu Comisiynydd Annibynnol ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol? Carnegie UK: Dunfermline.
- 5 Paylor (2024). Bywyd yn y DU yn 2024: Mesur o lesiant cyfunol y DU. Carnegie UK: Dunfermline.
- 6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gael drwy fynd i: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>.
- 7 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2024). Adroddiad blynyddol 2023-2024. Ar gael drwy fynd i: <https://senedd.wales/media/wszdek4z/gen-ld16632-e.pdf>.
- 8 Llywodraeth Cymru (2024). Llesiant Cymru: 2024. Ar gael drwy fynd i: <https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2024>.
- 9 Llywodraeth Cymru (2021). Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad. Ar gael drwy fynd i: <https://www.gov.wales/programme-for-government-2021-to-2026-html#73287>.
- 10 Newyddion y BBC (2024). Wales hospital waiting times hit new record high. Ar gael drwy fynd i: <https://www.bbc.co.uk/news/articles/cn07kje267vo>.
- 11 Iechyd Cyhoeddus Cymru (2024). Rhagnodi Cymdeithasol, Ar gael drwy fynd i: <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/yr-is-adran-gofal-sylfaenol/rhagnodi-cymdeithasol/>.
- 12 Llywodraeth Cymru (2024). Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer rhagnodi cymdeithasol: disgrifiad o ragnodi cymdeithasol yng Nghymru a chynllun o sut i'w ddarparu ledled y wlad. Ar gael drwy fynd i: <https://www.llyw.cymru/fframwaith-cenedlaethol-ar-gyfer-presgripsiynu-cymdeithasol-html>.
- 13 Crisp, Dallas, Fowler-Davis et al (2023). Understanding the SEED Domains: a scoping review of social, economic, environmental and democratic wellbeing. Carnegie UK: Dunfermline.
- 14 Pickett, Gauhar, a Wilson (2024). The Spirit Level at 15. Equality Trust: London.
- 15 Paylor a Baker (2023). The Long Shadow of the Cost of Living Emergency. Carnegie UK: Dunfermline.
- 16 Cyngor Bwrdeistref Barnsley (2024). Adroddiad y Comisiwn Llwybrau at Waith.
- 17 Tyler a Campbell (2024). Poverty Stigma: a glue that holds poverty in place. Joseph Rowntree Foundation: York.
- 18 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024). Labour market in the regions of the UK: April 2024
- 19 Felstead (2021). Fair work, low pay and productivity in Wales, in Can Good Work Solve the Productivity Puzzle: Collected essays. Carnegie UK: Dunfermline.
- 20 Child Poverty Action Group (2024). Strategaeth Tlodi Plant Cymru: cyfle a gollwyd? Ar gael drwy fynd i: https://cpag.org.uk/sites/default/files/2024-07/CPAG-Poverty-178-the-child-poverty-strategy-for-wales-a-missed-opportunity_o.pdf.
- 21 TUC Cymru (2023). Social Partnership: a new way forward for Wales. Ar gael drwy fynd i: <https://www.tuc.org.uk/blogs/social-partnership-new-way-forward-wales>.
- 22 Climate Change Committee (2024). 2024 Progress Report to Parliament. Ar gael drwy fynd i: <https://www.theccc.org.uk/publication/progress-in-reducing-emissions-2024-report-to-parliament/>.
- 23 Newyddion y BBC (2024). Wales second in the world for recycling rates. Ar gael drwy fynd i: <https://www.bbc.co.uk/news/articles/c511344v959o>.

- 24 Llywodraeth Cymru (2023). Canllawiau: Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro (Cymru) 2023. Ar gael drwy fynd i: <https://www.gov.wales/environmental-protection-single-use-plastic-products-wales-act>.
- 25 Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (2023). Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050: Adroddiad gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW). Ar gael drwy fynd i: <https://nationalinfrastructurecommission.wales/cy/paratoi-cymru-ar-gyfer-ynni-adnewyddadwy/>.
- 26 Llywodraeth Cymru (2024). Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad terfynol. Ar gael drwy fynd i: <https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-terfynol-pennod-2-html>.
- 27 Llywodraeth Cymru (2024). Cyfraith Newydd yn Moderneiddio Democratiaeth Cymru. Ar gael drwy fynd i: <https://www.llyw.cymru/cyfraith-newydd-yn-moderneiddio-democratiaeth-cymru>.
- 28 Wales Online (2020). The full horrifying scale of the 2001 foot and mouth outbreak told by Welsh farmers in the middle of it. Ar gael drwy fynd i: <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/foot-mouth-outbreak-farmers-2001-18074181>.
- 29 Martin (2024). What has devolution delivered for Wales? Wales Centre for Public Policy. Ar gael drwy fynd i: <https://wcpp.org.uk/commentary/what-has-devolution-delivered-for-wales/>.
- 30 Cynnal Cymru (2020). The Wales We Want National Conversation. Ar gael drwy fynd i: <https://cynnalcymru.com/the-wales-we-want-national-conversation/>.
- 31 Carnegie UK (2024). Engaging Democracy: Programme Insight Summary. Carnegie UK: Dunfermline.
- 32 Financial Times (2024). UK government sets out 40 bills in King's Speech for 'decade of national renewal'. Ar gael drwy fynd i: <https://www.ft.com/content/63cced06-8f34-4159-807a-c7f9b6e6ac64>.
- 33 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2022). Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar gael drwy fynd i: <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2022/12/S.20-Maturity-Matrix-English.pdf>.
- 34 Wales Net Zero 2035 Challenge Group (2024). Summary report: Pathways to a prosperous and resilient Wales in a changing future. Yr adroddiad. Ar gael drwy fynd i: <https://netzero2035.wales/our-reports/1-summary-report/>.



Atodiad 1: Tabl crynodeb o sgorau meysydd yn ôl nodweddion demograffig allweddol

		Llesiant cyfunol	Llesiant cymdeithasol	Llesiant economaidd	Llesiant amgylcheddol	Llesiant democrataidd
	Cyfanswm	62	74	70	62	39
Anabledd	Ddim yn anabl	64	78	74	65	40
	Anabl	54	64	59	60	35
Oedran	16-34 oed	59	71	69	59	40
	35-54 oed	59	72	64	62	36
	55+ oed	66	78	76	69	40
Incwm aelwyd	£25,999 ac is	56	70	58	61	38
	£26,000 i £51,999	63	75	74	64	38
	£52,000 i £99,999	66	79	81	66	40
	£100,000 ac uwch	66	77	77	71	41
Amddifadedd Ardal	Cwintel 1af (amddifad uchaf)	55	67	60	56	37
	2nd gwintel	61	74	67	63	41
	3rd gwintel	61	75	73	65	36
	4th gwintel	64	77	73	66	40
	5th cwintel (amddifad isaf)	67	79	79	69	40
Rhywedd	Menywod	61	73	70	63	40
	Dynion	62	76	71	65	38
Ethnigrwydd	Asiaidd	57	63	63	56	43
	Du	56	67	48	63	46
	Cymysg/mwy nag un	57	70	55	62	42
	Ethnigrwydd aral	64	76	69	72	39
	Gwyn arall	63	73	76	60	42
	Gwyn Prydeinig	62	75	71	64	39
	Lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn)	59	68	61	62	42
	Gwyn (gan gynnwys lleiafrifoedd gwyn)	62	75	71	64	39
Trefol yn erbyn gwledig	Trefol	60	73	69	61	38
	Gwledig	66	78	74	70	41

Acknowledgements

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Hannah Paylor ac fe'i dyluniwyd gan Alison Manson. Rydym yn ddiolchgar am fewnwelediadau a chefnogaeth tîm ehangach Carnegie UK.

Hoffai Carnegie UK ddiolch i Emily Gray, Stuart Stevenson a thîm Ipsos am gynnal yr arolwg a chynnal dadansoddiad o'r ffactorau ac atchweliad. Hoffem hefyd ddiolch i Jane Davidson a Joe Rossiter am adolygu cynnwys a chyd-destun yr adroddiad hwn.

Hoffem hefyd ddiolch a chydabod mewnbwn y Rhwydwaith Gwirionedd Tlodi a'r Gymuned Gwirionedd Tlodi sydd, ers 2023, wedi helpu Carnegie UK i ddysgu a deall mwy am sut beth yw bywyd yn y DU i bobl yr effeithir arnynt fwyaf gan lesiant cyfunol isel.

Dysgwch ragor am waith y Rhwydwaith yma: <https://povertytruthnetwork.org/>.

Please cite as: Paylor (2024). Bywyd yn y DU: Cymru 2024. Mesur o les cyfunol Cymru. Carnegie UK: Dunfermline.

ISBN rhif: 978-1-7384384-7-1

Ffotograffau:

Clawr blaen - [Unsplash Jonny Gos](#)

Tud 8 - [AdobeStock](#)

Tud 10 - [Unsplash Callum Blacoe](#)

Tud 12 - [AdobeStock](#)

Tud 14 - [AdobeStock](#)

Tud 16 - [AdobeStock](#)

Tud 18 - [AdobeStock](#)

Tud 20 - [AdobeStock](#)

Tud 22 - [iStock](#)


Tud 25 - [AdobeStock](#)



Crynodeb Lles ar y Cyd yn 2024 yng Nghymru



Llesiant Cymdeithasol



Llesiant Economaidd



Llesiant Amgylcheddo



Llesiant Democrataidd



Llesiant cyfunol yng Nghymru yn 2024 yw 62 allan o 100 posibl.

Life in the UK 2024

Wales



Carnegie UK Trust

Andrew Carnegie House
Pittencrieff Street
Dunfermline
Fife, Scotland
KY12 8AW

T +44 (0)1383 721445

www.carnegieuktrust.org.uk

Registered Charity No: SC 012799 operating in the UK
Registered Charity No: 20142957 operating in Ireland
Incorporated by Royal Charter 1917